Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Y Gorlan
Tremadog
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9RN

13/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Gorlan yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Ers yr arolygiad craidd, mae athrawon yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio ystod o weithgareddau dysgu ysgogol sy'n effeithiol wrth ddatblygu medrau mathemateg disgyblion.
- Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn effeithiol, er enghraifft wrth ddysgu enwau gwahanol onglau a'u mesur yn gywir.
- Lle mae'r arferion gorau, mae'r athrawon yn cynllunio ychydig o weithgareddau rhifedd pwrpasol ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys darparu cyfleoedd i'r disgyblion werthu cynnyrch i'r gymuned gan gyfrifo'r elw a cholled.
- Wrth symud ymlaen, mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn gynyddol annibynnol a chydlynus ar draws y meysydd dysgu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

### Sicrhau trefniadau hunanwerthuso a chynllunio er mwyn i'r ysgol adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella

- Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae'r pennaeth wedi cychwyn ailsefydlu trefniadau'r ysgol ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth. Mae ganddi weledigaeth briodol ar gyfer cyflawni hyn sy'n seiliedig ar ddatblygu rolau a chyfrifoldebau staff a llywodraethwyr dros amser.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi cwblhau ychydig o weithgareddau monitro priodol. Maent yn casglu ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol fel craffu ar lyfrau sydd, yn ei dro, yn cefnogi arweinwyr i adnabod ychydig o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.
- Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd ag ychydig o weithgareddau monitro fel ymweld â'r ysgol i werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn eu cefnogi i adnabod ychydig o gryfderau'r ysgol yn briodol.
- Ar y cyfan, nid yw'r trefniadau monitro yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud o ran yr agwedd hon.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612110

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol